**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**DEDDF PRIFFYRDD 1980**

**GORCHYMYN FFORDD GYSYLLTU A FFORDD YMUNO CEFNFFORDD DOLGELLAU I FAN I'R DE O BENBEDW (A494) (GWELLIANT DROME CORNER I EWLOE) 200-**
**A**
**GORCHYMYN CEFNFFORDD DOLGELLAU I FAN I'R DE O BENBEDW (A494) (GWELLIANT DROME CORNER I EWLOE CILFFYRDD) 200-**

**HYSBYSIR DRWY HYN** bod y Gweinidog dros Arloesi, Menter a Rhwydweithio ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn bwriadu gwneud y Gorchmynion canlynol:-

1. Gorchymyn o dan adrannau 10,12, a 106 o Ddeddf Priffyrdd 1980 yn darparu:-

a. y bydd y darn o'r ffordd gysylltu newydd Cefnffordd Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw (A494) y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnig ei hadeiladu yn dod yn gefnffordd o'r dyddiad pan fydd y Gorchymyn yn dod i rym a bydd yn ddarn i'r gorllewin o Gyfnewidfa Parc Dewi Sant ac i'r de o Old Mold Road yn Sir y Fflint oddeutu 470 metr mewn hyd, yn dechrau ar bwynt ar yr A494 tua'r gogledd ar y ffordd ymuno, 110 metr o'i chyffordd gyda Chyfnewidfa Ewloe A494/A55, ac yn rhedeg tua'r gogledd ddwyrain at gylchfan newydd i'w hadeiladu yn Weighbridge Road yn uniongyrchol i'r de o'r bont bwyso;

b. bydd y darn o'r ffordd ymuno newydd Cefnffordd Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw (A494) y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnig ei hadeiladu yn dod yn gefnffordd o'r dyddiad pan fydd y Gorchymyn yn dod i rym a

bydd yn 250 metr mewn hyd ac yn cysylltu ffordd gerbydau bresennol tua'r gogledd y gefnffordd gyda chylchfan sydd i'w hadeiladu fel rhan o'r brifffordd newydd sydd i'w darparu i'r de orllewin o Liverpool Road; a'r

c. bydd y darn o'r A494 Cefnffordd Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw yn Sir y Fflint rhwng Ewloe a Queensferry o bwynt 160 metr o ffin ogleddol Rheilffordd Wrecsam – Bidston, a 240 metr i'r de orllewin o'r gyffordd rhwng Old Aston Hill a'r gefnffordd i bwynt 120 metr i'r gogledd ddwyrain o linell ganol trosbont Plough Lane am bellter o 827 metr, yn peidio â bod yn gefnffordd a bydd yn ffordd ddosbarthedig o'r dyddiad y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn hysbysu Cyngor Sir y Fflint (a fydd yn awdurdod priffyrdd am y darn hwnnw); ac

d. ar gyfer adeiladu pont newydd wedi ei lledu dros y ddyfrffordd fordwyol a elwir yn Afon Dyfrdwy, rhwng Queensferry a Garden City, yn Sir y Fflint.

2. Gorchymyn o dan adrannau 12, 14, 125 a 268 o Ddeddf Priffyrdd 1980 yn awdurdodi Cynulliad Cenedlaethol Cymru:-

(a) i weithredu'r gwelliannau i'r priffyrdd;

(b) i gau priffyrdd neu rannau o brifffordd;

(c) i adeiladu priffyrdd newydd;

(ch) i gau mynedfeydd preifat i eiddo;

(d) i ddarparau mynedfeydd newydd i fangreoedd, ac

(dd) i gau priffyrdd dros dro

y cyfan rhwng Ewloe a Drome Corner yn Sir y Fflint; yn ogystal â

darparu ar gyfer trosglwyddo priffyrdd newydd i Gyngor Sir y Fflint o'r dyddiad y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn hysbysu'r Cyngor eu bod wedi'u cwblhau ac yn agored i draffig trwodd.

Gellir archwilio copïau o'r Gorchmynion a'r mapiau cysylltiol yn rhad ac am ddim, ar bob adeg resymol o 29 Rhagfyr 2006 i 16 Chwefror 2007 neu o fewn 7 wythnos ar ôl dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad hwn os bydd y cyfnod

hwnnw'n dod i ben yn ddiweddarach, yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, Trafnidiaeth Cymru, Is-adran 3 Cynllunio a Gweinyddu Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Trafnidiaeth Cymru, Ffordd Dinerth, Bae Colwyn, Swyddfeydd Adran Priffyrdd, Trafnidiaeth, Peirianneg Cyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, CH7 6NB, Swyddfa Brosiect yr A494, 4 Bridge Houses, Queensferry, Sir y Flint CH5 1SA a Llyfrgell Queensferry, Campws Queensferry, Queensferry, Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint CH5 1SA.

Caiff unrhyw berson, ddim hwyrach na 16 Chwefror 2007 neu o fewn chwe wythnos ar ôl dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad hwn os bydd y cyfnod hwn yn dod i ben yn ddiweddarach, wrthwynebu'r naill neu'r llall o'r Gorchmynion trwy hysbysu Llywodraeth Cynulliad Cymru, Trafnidiaeth Cymru, Is-adran 3 Cynllunio a Gweinyddu Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ gan ddyfynnu cyfeirnod BZ 910192-310-1 ac yn nodi sail y gwrthwynebiad. Wrth baratoi gwrthwynebiad a datganiad am sail y gwrthwynebiad dylid cadw mewn cof y gall sylwedd unrhyw wrthwynebiad neu sylw gael ei ddatgelu i bobl eraill a all gael eu heffeithio ganddo

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn Ffordd Gysylltu a Ffordd Ymuno drafft a'r Hysbysiad yn www.wales.gov.uk/index.htm (detholer 'Llywodraeth Cynulliad Cymru, Deddfwriaeth, Deddfwriaeth ddrafft, Offerynnau Statudol Lleol Drafft. Gorchmynion Llinell Deddf Priffyrdd').

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn Cilffyrdd drafft a'r Hysbysiad yn www.wales.gov.uk/index.htm (detholer 'Llywodraeth Cynulliad Cymru, Deddfwriaeth, Deddfwriaeth Ddrafft, Offerynnau Anstatudol Drafft, Gorchmynion Cilffyrdd Deddf Priffyrdd').

Gellir cael copi print brasach o'r Hysbysiad hwn oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru, Trafnidiaeth Cymru, Is-adran 3 Cynllunio a Gweinyddu Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

**M D BURNELL**
Is-adran Cynllunio a Gweinyddu Trafnidiaeth
Llywodraeth Cynulliad Cymru

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**GWELLIANT CEFNFFORDD DOLGELLAU I FAN I'R DE O BENBEDW (A494) DROME CORNER I EWLOE**

## PENDERFYNIAD ASESU EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL GAN GYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU O DAN ADRAN 105(A) O DDEDDF PRIFFYRDD 1980

Mae'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau, ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn ystyried a ddylid mynd ymlaen ai peidio gyda'r prosiect uchod i adeiladu neu wella priffordd y mae'n awdurdod priffordd drosti.

Bydd y cynllun yn cynnwys lledu arliniad darn 4.25km o gefnffordd sy'n ffordd gerbydau ddeuol i ffordd ddeuol gan ei throli'n ffordd â thair neu bedair lôn gyda llain galed, sy'n mynd o'r gogledd ddwyrain i'r de orllewin rhwng man croesi wedi ei wella dros Afon Dyfrdwy ger Queensferry a chyfnewidfa Ewloe ger yr A55. Bydd strwythurau newydd a strwythurau estynedig yn cael eu hadeiladu, a ffyrdd cyswllt newydd ac estynedig. Mae'r ffordd yn mynd heibio'n agos at ardaloedd preswyl sefydledig mawr ac yn croesi safle cadwraeth natur ddynodedig Ewropeaidd, Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid. Bydd y cynllun lledu, gyda gwaith peirianyddol ac amgylcheddol cysylltiedig, yn effeithio ar ddrychfa *(cutting)*, argloddiau, strwythurau, llwybrau cerdded a beiciau a mesurau lliniaru amgylcheddol presennol sy'n cynnwys planhigfeydd sefydledig.

Mae'r cynllun yn mynd trwy neu ar hyd ochr ardaloedd sy'n amrywio'n fawr o ran

nodweddion: ardaloedd masnachol, adeiladau preswyl clos, ac ardaloedd amaethyddol, trefol a diwydiannol cyn croesi sianel llanw a thrai yr Afon Dyfrdwy. Yn y gorlifdir mae'r tir yn ymddangos yn wastad, ond wedyn mae'n codi yn eithaf serth tuag at Ewloe a thu hwnt. Mae datblygiadau trefol, gan gynnwys tir diwydiannol, preswyl a manwerthu a'r brif reilffordd, yn llenwi'r ardal rhwng Afon Dyfrdwy a Chyfnewidfa Queensferry. O'r pwynt yma mae'r tir i'r gogledd o'r ffordd at ddefnydd preswyl, tra bod y tir i'r de yn parhau at ddefnydd amaethyddol. Mae'r ardal dai Aston Mead sy'n ffinio â'r ffordd, yn gysylltiedig â chymuned Aston trwy bont Plough Lane. Wedyn mae'r gefnffordd yn haneru ardal o waith tywod lle mae llystyfiant wedi ail-dyfu'n naturiol, y gwyddys ei bod yn cynnwys nifer o rywogaethau a warchodir o dan y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 a'r Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol &c) 1994, ac yn mynd trwy'r unig ddrychfa syleddol ar y ffordd cyn dod allan yng Nghyfnewidfa Ewloe. Yn y fan yma mae'n mynd dros y gyfnewidfa ac ar hyd ymyl ogleddol datblygiad masnachol o swyddfeydd a gwesty / canolfan gynadledda. Mae rhagor o ardaloedd preswyl i'r de i'r gefnffordd ac i'r gogledd i'r gyfnewidfa. Mae'r cymunedau wrth ymyl y gefnffordd yn cael eu cysylltu trwy bontydd a thanlwybrau ar gyfer cerbydau a cherddwyr, gyda rhai ohonynt yn cael eu defnyddio'n helaeth. Mae'r ffyrdd presennol yn cyfyngu symudiad i'r pwyntiau croesi hyn.

Mae'r ardal yn cael ei draenio gan gyrsiau dŵr bychan iawn sy'n llifo trwy Ddraen Queensferry i mewn i'r rhan o Afon Dyfrdwy yr effeithir arni gan y llanw. Nid yw'r dyfrhaenau gwaelodol yn cael eu defnyddio ar gyfer tynnu dŵr yfed. Mae sŵn trafnidiaeth a gollyngiadau llygryddion yn faterion sy'n achosi pryder ar hyn o bryd. Mae ffryntiad nifer sylweddol o eiddo yn ymylu â'r gefnffordd neu'r ffordd wasanaeth gyfochrog, heb unrhyw sgrin sŵn na sgrin weledol effeithiol. Ar y prif gyffyrdd presennol mae mannau lle mae coed amwynder wedi cael eu plannu ac yn datblygu ac mae hynny'n cynnig rhywfaint o sgrin weledol ac yn meddalu'r brifford a'i strwythurau. Fel arall mae coed aeddfed yn brin iawn o amgylch y ffordd.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi

penderfynu bod y prosiect yn brosiect perthnasol o fewn Atodiad II i Gyfarwyddeb y Cyngor 85/337/EEC ("y Gyfarwyddeb") fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Cyngor 97/11/EC ac y dylai fod yn ddarostyngedig i asesiad o'r effaith amgylcheddol yn unol â'r Gyfarwyddeb.

Mae'n bosibl y gall y prosiect gael llawer o effeithiau amgylcheddol ar gymunedau a bioamrywiaeth. Gellir asesu'r effeithiau hyn gyda'r broses asesiad effaith amgylcheddol a gellir cynllunio mesurau lliniaru. Hefyd gall y prosiect gael effaith posibl ar ardal gwarchodaeth arbennig (Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid) a ddynodwyd o dan Gyfarwyddeb 92/43/EEC y Comisiwn Ewropeaidd, a bydd yn ddarostyngedig i asesiad priodol yn ôl gofynion y Gyfarwyddeb honno.

Yn unol â'r penderfyniad uchod mae Datganiad Amgylcheddol wedi cael ei baratoi. Mae'n dynodi'r materion amgylcheddol allweddol canlynol sy'n gysylltiedig â'r prosiect, sef:

- **Ansawdd yr Aer:** Bydd y cynllun yn gyffredinol yn cynyddu'r gwahaniad rhwng y traffig a llawer o'r eiddo preswyl, ond yn lleihau'r gwahaniad mewn rhai ardaloedd. Ar y cyfan gellir cael effaith buddiol posibl ar ansawdd yr aer yn lleol. Ond weithiau yn ystod trafnidiaeth oriau brig yn ystod y cyfnod adeiladu gall fod cynnydd mewn llygredd aer ond bydd hyn yn gyfyngedig i rai mannau yn unig.
- **Amharu o ganlyniad i Adeiladu:** mae'n bosibl yr effeithir ar drigolion lleol a defnyddwyr ffyrdd o ganlyniad i gau lonydd, rheoli traffig, cludo deunyddiau, sŵn, llwch ac aflonyddwch yn ystod y gwaith adeiladu.
- **Ecoleg a Chadwraeth Natur**: effeithiau ar fioamrywiaeth yn ystad y gefnffordd a rhai effeithiau posibl ar rywogaethau a warchodir ar dir cyfagos. Mae'n bosibl yr effeithir at y ffactorau sy'n cymhwyso Ardal Cadwraeth Arbennig Llyn Tegid ac Afon Dyfrdwy.
- **Effeithiau ar y Dirwedd:** effeithiau o ganlyniad i golli darn mawr o blanhigfeydd coed amwynder sefydledig wrth gyffyrdd

sydd ar hyn o bryd yn sgrinio golygfeydd o’r ffordd ac yn meddalu’r lleoliad trefol. Bydd colli llystyfiant hefyd yn effeithio ar gymeriad y dirwedd drefol, gan gynyddu amlygrwydd y traffig, er bod posibilrwydd y gellir darparu mwy o leoedd plannu er mwyn cynnig mwy o fanteision yn yr hirdymor.

- **Defnydd Tir:** bydd rhaid cymryd rhagor o dir a bydd hynny’n effeithio ar ffermydd a ffyrdd eraill o ddefnydd tir.

- **Sŵn Traffig a Dirgryndod:** Bydd y cynllun yn cynyddu’r gwahaniad rhwng y traffig a nifer o dai preswyl, ond yn lleihau'r gwahaniad i rai eraill. Mae’n bosibl y ceir lleihau effaith sŵn trwy ddarparu rhwystrau sŵn. Gall dylunio ar gyfer cynyddu cyflymder traffig, ac ail-gyfeirio rhywfaint o’r traffig lleol, gynyddu’r sŵn a brofir mewn rhai o’r eiddo ond rhagwelir y bydd mesurau lliniaru ar gael.

- **Ansawdd y Dŵr a Draenio:** bydd effeithiau posibl o ganlyniad i lygredd oherwydd traffig a mwy o ollyngiadau draenio ffyrdd, ond bydd manteision posibl os gellir cyflwyno mwy o fesurau lliniaru. Y manylion am gwmpas a maint y gwaith asesu effaith amgylcheddol a wneir ac ymgynghoriadau gyda’r awdurdod lleol, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Cadw ac Asiantaeth yr Amgylchedd:

  Yng nghanol y 1990au gwnaed asesiad effaith amgylcheddol yn ôl dulliau’r cyfnod. Gwnaethpwyd hyn hyd at y cyfnod drafft, ond nid aeth y prosiect yn ei flaen wedyn. Yn ddiweddar, gwnaed llawer o waith i benderfynu ar gwmpas yr asesiad effaith amgylcheddol, gan gynnwys arolygon cadwraeth natur ar gyfer y rhan fwyaf o’r rhywogaethau perthnasol. Hefyd cwblhawyd astudiaeth ddesg ragarweiniol sy’n cwmpasu’r rhan fwyaf o’r pynciau amgylcheddol eraill. Mae rhagor o arolygon mwy manwl wrthi’n cael eu gwneud.

Mae ymgynghoriadau a chyfarfodydd cychwynnol wedi cael eu cynnal gyda Chyngor Cefn Gwlad

Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a gyda Chyngor Sir y Fflint. Codwyd cwestiynau gan y cyrff hyn ynglŷn â'r effeithiau posib ar fywyd gwyllt a chynefinoedd, llifogydd mewn rhai mannau, ansawdd yr aer a llygru tir posib mewn rhai mannau. Bydd yr ymgynghori'n parhau gyda'r cyrff hyn ac asiantaethau allweddol eraill.

Mae'r Datganiad Amgylcheddol hefyd yn nodi'r mesurau canlynol sydd i'w cynnwys yn y prosiect er mwyn osgoi, lleihau neu weithredu yn erbyn ei effeithiau andwyol:

- Mae Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu yn cael ei ddatblygu er mwyn sicrhau y cedwir at arferion da ar y safle a rheoli'r gwaith yn dda.

- Bydd y dulliau adeiladu yn cael eu cynllunio i sicrhau y lefelau lleiaf posib o ddirgryndod ac i osgoi difrod cosmetig ac aflonyddwch mewn adeiladau preswyl lleol.

- Bydd y gwaith yn cael ei gynllunio i gael yr effaith lleiaf posib ar gynefinoedd a rhywogaethau a warchodir, yn arbennig yn Ardal Cadwraeth Arbennig / Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Afon Dyfrdwy. Ceir yr holl drwyddedau angenrheidiol oddi wrth Gyngor Cefn Gwlad Cymru neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru cyn i'r gwaith ddechrau.

- Bydd y gwaith yn yr afon yn cael ei amseru er mwyn osgoi aflonyddu ar yr eog, y lamprai a'r brithyll môr pan fyddant yn mudo.

- Bydd llygod y dŵr yn Nraen Queensferry yn cael eu trosglwyddo i safle arall tra bydd draen newydd yn cael ei adeiladu, fel y gellir sefydlu poblogaeth newydd.

- Er mwyn gwella cynefinoedd ar gyfer llygod y dŵr, ystlumod a dyfrgwn, bydd glaswelltir, prysgwydd a choetiroedd

newydd yn cael eu creu.

- I ostwng effeithiau gweledol, bydd coetir newydd yn cael ei blannu, twmpathau sgrinio yn cael eu darparu a phrysgwydd yn cael eu plannu.

- Bydd y pridd presennol yn cael ei godi'n ofalus, ei storio a'i ail ddefnyddio yn y gwaith er mwyn hybu sefydlu cynefinoedd newydd ac adfer ardaloedd amaethyddol.

- Er mwyn gostwng sŵn cerbydau bydd y cynllun arfaethedig yn cael ei adeiladu gydag arwynebedd 'sŵn isel' ym mhob man.

- Bydd rhwystrau sŵn yn cael eu darparu lle bo'n briodol i ostwng lefelau sŵn traffig gymaint â sy'n ymarferol resymol.

- Bydd y rhan fwyaf o bwyntiau croesi presennol yr A494 yn cael eu cadw neu fe osodir rhai eraill o safon uwch yn eu lle. Bydd pont droed Ewloe yn cael ei newid am un sy'n addas ar gyfer pob cerddwr.

- Er mwyn cael llwybr diogel i gerddwyr a seiclwyr, bydd llwybrau ar wahân yn cael eu darparu o Queensferry i Garden City.

- Bydd y system ddraenio arfaethedig yn cynnwys pyllau cydbwyso wedi'u cynllunio i reoleiddio llifoedd, ffiltro llygredd a dal unrhyw ollyngiadau damweiniol.

Gellir archwilio copïau o'r Datganiad Amgylcheddol yn rhad ac am ddim ar bob adeg resymol o 29 December 2006 tan 16 Chwefror 2007 neu o fewn 7 wythnos ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad hwn, pa un bynnag o'r cyfnodau fydd yn dod i ben ddiwethaf, yn y lleoliadau canlynol:

- Cangen Gorchmynion, Is-adran Cynllunio a Gweinyddu Trafnidiaeth, Trafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd;
- Llywodraeth Cynulliad Cymru, Trafnidiaeth Cymru, Ffordd Dinerth, Bae Colwyn;
- Swyddfeydd Adran Priffyrdd, Cludiant, Peirianneg Cyngor Sir y Fflint, Neuadd y

Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NB;

- Swyddfa Prosiect yr A494, 4 Bridge Houses, Queensferry, Sir y Fflint CH5 1SA;
- Llyfrgell Queensferry, Campws Queensferry Queensferry, Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint CH5 1SA.

Caiff unrhyw berson, ddim hwyrach na 16 Chwefror 2007 neu o fewn 7 wythnos o ddyddiad cyhoeddi'r Hysbysiad hwn os bydd y cyfnod hwn yn dod i ben yn ddiweddarach, fynegi barn ar fanylion cyhoeddedig y Datganiad Amgylcheddol fel y gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru eu cymryd i ystyriaeth pan fydd yn penderfynu a fyddir yn mynd ymlaen â'r prosiect hwn neu beidio. Rhaid i unrhyw farn felly gael ei wneud mewn ysgrifen i Gangen Gorchmynion, Is-adran Cynllunio a Gweinyddu Trafnidiaeth, Trafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ gan ddyfynnu cyfeirnod BZ10192-310-1. Wrth baratoi mynegiant o farn dylid cadw mewn cof y gall sylwedd y farn gael ei ddatgelu i bobl eraill y gallai'r prosiect effeithio arnynt.

Gellir cael copi print brasach o'r hysbysiad hwn oddi wrth Gangen Gorchmynion, Is-adran Cynllunio a Gweinyddu Trafnidiaeth, Trafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

**M D BURNELL**
Is-adran Cynllunio a Gweinyddu Trafnidiaeth
Llywodraeth Cynulliad Cymru

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

---

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L

---

# 200 Rhif (C. )

# PRIFFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Ffordd Gysylltu a Ffordd Ymuno Cefnffordd Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw (A494) (Gwelliant Drome Corner i Ewloe) 200-

*Gwnaed*
*200-*

*Yn dod i rym* *200-*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 10, 12, ac 106 o Ddeddf Priffyrdd 1980(1) a phob pŵer galluogi arall (2)-

1. Bydd y priffyrdd newydd y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnig eu hadeiladu yn Sir y Fflint-

(a) ar hyd y llwybr a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn (y briffordd ar hyd y llwybr hwn y cyfeirir ati yn y Gorchymyn fel "y gefnffordd gysylltu newydd") ac a fydd yn cysylltu'r gefnffordd bresennol gyda chylchfan newydd fel a ddisgrifir yr Atodlen honno;

(b) ar hyd y llwybr a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn (y briffordd ar hyd y llwybr hwn y cyfeirir ati yn y Gorchymyn fel "y ffordd ymuno")

yn gefnffordd o'r dyddiad pan ddaw'r Gorchymyn hwn i rym.

2. Dangosir llinellau canol y cefnffyrdd newydd gan linellau du trwm a dangosir cynigion y cilffyrdd cysylltiedig gan linellau gwyn toredig ar y plan a adneuwyd.

3. Bydd y darn o'r gefnffordd a

---

ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir gan groeslinellau rhesog llydan ar y plan a adneuwyd yn peidio â bod yn gefnffordd a bydd yn ffordd ddosbarthedig o'r dyddiad y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn hysbysu Cyngor Sir y Fflint eu bod yn awdurdod priffyrdd sy'n gyfrifol am y darn hwnnw o'r ffordd.

4. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i awdurdodi i adeiladu'r bont letach newydd a nodwyd yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn fel rhan o welliannau i'r gefnffordd.

5. Yn y Gorchymyn hwn:-

mae'r holl fesuriadau pellter yn cael eu mesur ar hyd llwybr y briffordd berthnasol;

ystyr "plan y bont" ("the bridge plan") yw'r plan gyda'r rhifau HA10/2 NAFW 16 sydd wedi'i farcio gyda "Gorchymyn Ffordd Gysylltu a Ffordd Ymuno Cefnffordd Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw (A494) (Gwelliant Drome Corner i Ewloe) 200- Atodlen 4 –Manylebau'r bont dros ddyfrffordd fordwyol", llofnodwyd trwy awdurdod y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau ac a adneuwyd yn Uned Storio ac Adennill Cofnodion, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Neptune Point, Ocean Way, Caerdydd;

ystyr "y plan a adneuwyd" ("the deposited plan") yw'r plan gyda'r rhifau HA10/2 NAFW15 sydd wedi'i farcio gyda "Gorchymyn Ffordd

Gysylltu a Ffordd Ymuno Cefnffordd Dolgellau i Fan i’r De o Benbedw (A494) (Gwelliant Drome Corner i Ewloe) 200-”, llofnodwyd trwy awdurdod y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau ac a adneuwyd yn Uned Storio ac Adennill Cofnodion, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Neptune Point, Ocean Way, Caerdydd;

ystyr “y gefnffordd” (“the trunk road”) yw’r Gefnffordd Dolgellau i Benbedw (A494);

ystyr “y gefnffordd gysylltu newydd” (“the new connecting trunk road”) yw’r gefnffordd gysylltu a grybwyllir yn erthygl 1 o’r Gorchymyn hwn;

ystyr “ffordd ddosbarthedig” (“classified road”) fel dosbarthiad i briffordd, yw nad yw’r briffordd yn brif ffordd at bwrpas gweithredu neu offerynnau sy’n cyfeirio at briffyrdd a ddosbarthwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac nid yw’n cyfeirio’n benodol at eu dosbarthiad fel prif ffyrdd; ac

ystyr “Gorchymyn Cilffyrdd” (“Side Roads Order”) yw’r Gorchymyn Cefnffordd Dolgellau i Fan i’r De o Benbedw (A494) (Cilffyrdd Gwelliant Drome Corner i Ewloe) 200-.

6. Daw’r Gorchymyn hwn i rym ar 200-. Enw’r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ffordd Gysylltu a Ffordd Ymuno Cefnffordd Dolgellau i Fan i’r De o Benbedw (A494) (Gwelliant Drome Corner i Ewloe) 200-.

Llofnodwyd ar ran y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau.

Dyddiad 200-

**S C SHOULER**
Cyfarwyddwr Cynllunio a Gweinyddu Trafnidiaeth
Llywodraeth Cynulliad Cymru

(**1**) 1980 c.66
(**2**) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, mae'r pwerau hyn wedi cael eu trosglwyddo erbyn hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Chymru.

## YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

### LLWYBR Y FFORDD GYSYLLTU NEWYDD

Llwybr i'r gorllewin o Gyfnewidfa Parc Dewi Sant ac i'r de o Old Mold Road oddeutu 470 metr mewn hyd, yn dechrau ar bwynt ar yr A494 tua'r gogledd ar y ffordd ymuno 110 metr o'i chyffordd gyda Chydnewidfa Ewloe A494/A55, ac yn rhedeg tua'r gogledd ddwyrain at gylchfan newydd sydd i'w hadeiladu yn Weighbridge Road yn uniongyrchol i'r de o'r bont bwyso yn unol â'r Gorchymyn Cilffyrdd cysylltiedig (Plan o'r Safle Rhif 1).

## ATODLEN 2

## LLWYBR Y FFORDD YMUNO NEWYDD

Llwybr am oddeutu 250 metr mewn hyd i gysylltu ffordd gerbydau bresennol tua'r gogledd y gefnffordd gyda chylchfan sydd i'w hadeiladu fel rhan o'r briffordd newydd sydd i'w darparu i'r de orllewin o Liverpool Road yn unol â'r Gorchymyn Cilffyrdd cysylltiedig, (Plan o'r Safle Rhif 2).

## ATODLEN 3

## DARN O'R GEFNFFORDD A494 SY'N PEIDIO Â BOD YN GEFNFFORDD

Y darn o gefnffordd yr A494 sy'n peidio â bod yn gefnffordd yw'r darn o'r ffordd gerbydau tua'r gogledd rhwng Ewloe a Queensferry yn Sir y Fflint o bwynt 160 metr o ffin ogleddol Rheilffordd Wrecsam i Bidston a 240 metr i'r de orllewin o'r gyffordd rhwng Old Aston Hill a'r gefnffordd i bwynt 120 metr i'r gogledd ddwyrain o linell ganol trosbont Plough Lane, am bellter o 827 metr, sydd wedi'i ddangos gyda chroeslinellau rhesog llydan ar y plan a adneuwyd. (Plan y Safle Rhif 3).

## ATODLEN 4

## MANYLEBAU'R BONT DROS DDYFRFFORDD FORDWYOL

Pont letach newydd dros yr Afon Ddyfrdwy rhwng Queensferry a Garden City yn Sir y Fflint, gan gynnwys strwythur y bont

bresennol a elwir yn Bont yr Afon Dyfrdwy a darn wedi ei ledu yn cyd-ffinio ac yn uniongyrchol i'r de ddwyrain o Bont Afon Dyfrdwy, mae'r lleoliad a'r dyluniad cyffredinol wedi'u dangos ar y plan o'r bont.

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

ISDDEDDFWRIAETH

**200 Rhif**

**DEDDF PRIFFYRDD 1980**

**GORCHYMYN CEFNFFORDD DOLGELLAU I FAN I'R DE O BENBEDW (A494) (GWELLIANT DROME CORNER I EWLOE CILFFYRDD) 200-**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 12, 14, 125 a 268 o Ddeddf Priffyrdd 1980 (1) a phob pŵer galluogi eraill (2) yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

1. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i awdurdodi, mewn perthynas â'r gefnffordd rhwng Drome Corner ac Ewloe yn Sir y Fflint –

(1) i weithredu'r gwelliannau i'r priffyrdd;

(2) i gau priffyrdd neu rannau o brifffordd;

(3) i adeiladu priffyrdd newydd;

(4) i gau mynedfeydd preifat i eiddo ac

(5) i ddarparu mynedfeydd newydd i eiddo; ac

(6) i gau priffyrdd dros dro.

2. (1) Mae'r gwaith a awdurdodir gan Erthygl 1 wedi'i nodi yn yr Atodlenni rhifau 1 i

8 i'r Gorchymyn hwn. Mae pob Atodlen yn enwi yn ei phennawd ym mha ardal y mae'r priffyrdd a'r mynedfeydd y cyfeirir atynt wedi eu lleoli, neu y byddant wedi eu lleoli.

(2) Mae'r gwaith a awdurdodir gan Erthygl 1 wedi'i nodi ar y planiau o'r safle rhifau 1 i 8 sydd wedi eu cynnwys gyda'r map a adneuwyd sy'n gysylltiedig â'r Gorchymyn hwn. Mae'r map yn dangos y gwaith a nodir yn yr atodlen yn y dull canlynol:

(a) enwir y priffyrdd sydd i'w gwella ac fe'u dangosir gyda chroeslinellau. Bydd y rhannau o brifffordd B5127 a ddangosir wedi'u ymylu'n ddu or Gynllun Safle 1 yn cael eu glaswetio a'u cwrbio; atal traffig cerbydol ag eithrio cerbydau ymgynerwyr statudol.

(b) disgrifir y darnau a'r rhannau o'r briffordd sydd i gael eu cau (bras amcan yw'r holl bellteroedd a nodir) ac fe'u dangosir gyda chroeslinellau sebra;

(c) nodir y priffyrdd newydd sydd i'w hadeiladu trwy gyfrwng y llythrennau cyfeirio yn yr Atodlen a roddir i'r priffyrdd newydd hynny ar y map a adneuwyd. Lle bo priffordd newydd i gael ei hadeiladu mewn cysylltiad â chau rhan neu ddarn o briffordd a ddisgrifir mewn Atodlen, rhoddir ei llythyren gyfeirio gyferbyn â'r disgrifiad o'r darn hwnnw a lle bo priffordd newydd i fod yn llwybr troed neu lwybr beicio rhoddir y gair "llwybr troed" neu "lwybr beicio" (yn ôl yr achos) mewn cromfachau o dan y llythyren gyfeirio;

(d) disgrifir y darnau o fynedfeydd preifat sydd i gael eu cau (bras amcan yw'r holl bellteroedd a nodir), rhoddir llythrennau cyfeirio iddynt sydd wedi'u dangos ar y map a adneuwyd ac fe'u dangosir mewn llinellau du; a

(e) dangosir y mynedfeydd newydd sydd i gael eu darparu yn yr Atodlen trwy gyfrwng y llythrennau cyfeirio a roddir i'r mynedfeydd newydd hynny ar y map a adneuwyd. Lle bo mynediad newydd i gael ei ddarparu mewn cysylltiad â chau darn o fynediad preifat a ddisgrifir yn yr Atodlen honno, rhoddir ei rhif cyfeirio gyferbyn â'r disgrifiad o'r darn hwnnw. Dangosir ffyrdd y mynedfeydd preifat newydd gyda chroeslinellau croesgornel; a

(f) disgrifir y darnau o briffordd sydd i gael eu cau dros dro (bras amcan yw'r holl bellteroedd a nodir) ac fe'u dangosir gyda chroeslinellau siefron.

(3) Mae'r map yn dangos lleoliad y gefnffordd mewn perthynas â'r gwaith a nodir ar y map a adneuwyd.

(4) Lle bo'r darn o briffordd sydd i'w gau yn cyd-redeg gyda ffordd gwaith awdurdodedig sy'n cynnwys priffordd newydd neu fynediad newydd nid yw'r darn hwnnw wedi ei ddangos ar y map a adneuwyd gyda chroeslinellau sebra.

3. Cyhoeddir drwy hyn fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i fodloni:-

(1) mewn perthynas â phob rhan neu ddarn o brifffordd sydd i gael eu cau, y bydd naill ai ffordd resymol gyfleus arall ar gael neu'n cael ei darparu cyn cau y rhan honno o'r briffordd; ac

(2) mewn perthynas â phob mynediad preifat i eiddo sydd i gael eu cau, y bydd mynediad rhesymol gyfleus arall i'r eiddo ar gael neu'n cael ei ddarparu cyn cau'r mynediad preifat hwnnw os oes angen rhesymol am fynediad i'r eiddo perthnasol.

4. Bydd pob priffordd newydd yn cael ei throsglwyddo i Gyngor Sir y Fflint fel y nodir yn yr Atodlen ddywededig, o'r dyddiad y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn hysbysu'r Cyngor ei bod wedi'i chwblhau ac yn agored i

draffig trwodd.

5. Yn syth ar ôl trosglwyddo priffordd newydd ac y mae dosbarthiad ar ei chyfer wedi'i ddangos yn yr Atodlen berthnasol gyferbyn â llythyren gyfeirio'r brifford newydd honno, bydd y briffordd honno yn cael ei dosbarthu'n unol â hynny.

6. Lle bo darpariaeth wedi'i gwneud yn y Gorchymyn hwn:-

a. ar gyfer trosglwyddo priffordd newydd i Gyngor Sir y Fflint neu
b. i alluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i addasu priffordd a freiniwyd yng Nghyngor Sir y Fflint

yna (yn ddarostyngedig i ddarpariaethau adran 268(3) o Ddeddf 1980) bydd unrhyw eiddo, hawliau neu atebolrwydd (ar wahân i fenthyciadau neu gostau benthyciadau) a freiniwyd neu a achoswyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn cysylltiad â'r briffordd newydd neu addasu priffordd, yn ôl yr achos, yn cael eu trosglwyddo i Gyngor Sir y Fflint ar ddyddiad trosglwyddo'r briffordd ddywededig neu ar ôl cwblhau'r gwaith neu'r addasiadau, neu ar y dyddiad y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn caffael y tir mewn cysylltiad â'r briffordd newydd, os yn ddiweddarach.

7. Pan fod gan unrhyw ymgymerwyr statudol gyfarpar o dan, mewn, dros, ar hyd neu ar draws priffordd yn union cyn cau darn neu ran o briffordd, yna yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Priffyrdd 1980, bydd yr ymgymerwyr hynny yn parhau gyda'r un hawliau a oedd ganddynt mewn perthynas â'r cyfarpar neu'r gwaith cyn i'r briffordd gael ei chau.

8. Yn y Gorchymyn hwn caiff pob mesuriad pellter ei fesur ar hyd llwybr y briffordd berthnasol neu'r ffordd fynediad i'r eiddo, fel y bo'r achos;

(i.) ystyr "ffordd ddosbarthiadol" fel dosbarthiad i briffordd newydd, yw bod y briffordd ddim yn brif ffordd at ddibenion gweithredu neu offerynnau

sy’n cyfeirio at briffyrdd sydd wedi’u dosbarthu fel prif ffyrdd ond mae’n ffordd ddosbarthiadol at bwrpas pob gweithredu ac offerynnau sy’n cyfeirio at briffyrdd a ddosbarthwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac nid yw’n cyfeirio’n benodol at eu dosbarthiad fel prif ffyrdd;

(ii.) mae “gwella” *(“improvement”)* mewn perthynas â phriffordd yn cynnwys codi, gostwng neu addasu’r briffordd honno, a bydd “gwella” yn cael ei ddehongli yn unol â hynny;

(iii.) ystyr “priffordd newydd” *(“new highway”)* yw priffordd a awdurdodwyd gan y Gorchymyn hwn i’w gael ei hadeiladu, a bydd “priffyrdd newydd” yn cael eu dehongli yn unol â hynny;

(iv.) ystyr “prif ffordd” fel dosbarthiad ar gyfer priffordd newydd yw bod y briffordd yn brif ffordd at bwrpas gweithrediadau neu offerynnau sy’n cyfeirio at briffyrdd a ddosbarthwyd fel prif ffyrdd ac mae hefyd wedi ei dosbarthu at bwrpas pob gweithrediad ac offeryn arall sy’n cyfeirio at briffyrdd a ddosbarthwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru;

(v.) ystyr “y map” *(“the map”)* yw’r map sy’n cynnwys y plan safle gyda’r rhifau 1 i 8 sydd wedi eu cynnwys yn ffolio’r cynllun gyda’r rhifau NAFW wedi’i farcio gyda “Gorchymyn Cefnffordd Dolgellau i Fan i’r De o Benbedw (A494) (Gwelliant Drome Corner i Ewloe Cilffyrdd) 200-” a lofnodwyd ar ran y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau gan awdurdod y Cynulliad Cenedlaethol ac a adneuwyd yn Uned Storio ac Adennill Cofnodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Neptune Point, Ocean Way, Caerdydd;

(vi.) ystyr “plan y safle” *(“the site plan”)* yw un o blaniau’r safle gyda’r rhifau 1 i 8 sydd wedi eu cynnwys yn ffolio’r plan gyda’r rhifau NAFW ac y cyfeirir ato fel “y map” ym mharagraff

(v.) uchod yn yr Erthygl hon;

(vii.) ystyr "y gefnffordd" *("the trunk road")* yw Cefnffordd Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw (A494);

(viii) ystyr "ffordd ddi-ddosbarth" yw priffordd sydd ddim yn ffordd ddosbarthiadol nac yn llwybr troed nac yn llwybr beicio ac nad oes ganddi unrhyw ddosbarthiad ffurfiol.

9. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 200- ac enw'r Gorchymyn yw'r Gorchymyn Cefnffordd Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw (A494) (Gwelliant Drome Corner i Ewloe Cilffyrdd) 200-.

Llofnodwyd ar ran y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau.

Dyddiad
200-

**S C SHOULER**
Cyfarwyddwr Cynllunio a Gweinyddu Trafnidiaeth
Llywodraeth Cynulliad Cymru

(1) 1980 c.66
(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672 erthygl 2 ac Atodlen 1, mae'r pwerau hyn wedi cael eu trosglwyddo erbyn hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Chymru